PorthSgiliau

Gwybodaeth am y Farchnad Lafur

Dyfodol Gwaith 2014-2024 Papur Crynodeb ar gyfer Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio ymestyn ac ehangu'r defnydd o Wybodaeth am y Farchnad Lafur ar draws Cymru. Ewch i'n gwefan: https://businesswales.gov.wales/skillsgateway/cy/cudd-wybodaeth-am-y-farchnad-lafur

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am y Dyfodol Gwaith neu Brosiect Gwybodaeth am y Farchnad Lafur Llywodraeth Cymru, cysylltwch â LMI@llyw.cymru

Dyddiad: Rhagfyr 2017

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dyfodol Gwaith 2014-2024: Papur Crynodeb ar gyfer Cymru

Dyfodol Gwaith 2014-2024 (Wilson et al., 2016) yw'r chweched mewn cyfres o ragolygon degawd o hyd o farchnad lafur y DU, ac mae'n cyflwyno rhagolygon ar gyfer cynnyrch a galw a chyflenwad sgiliau rhwng 2014 a 2024. Mae'r papur hwn yn rhoi crynodeb o rai o'r tueddiadau a nodwyd, gan ganolbwyntio'n benodol ar y tueddiadau yng Nghymru.

Beth yw Dyfodol Gwaith a pham ei fod yn bwysig?

Wedi'i gyhoeddi gan Gomisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau (UKCES), mae Dyfodol Gwaith yn defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael, ar ffurf data caled ar ddemograffeg, addysg, cyflogaeth a'r economi ehangach, ac yn cymhwyso cyfres o fodelau profedig at y rhain er mwyn ystyried sut y maent yn debygol o ddatblygu dros amserlen deng mlynedd. Cred UKCES mai dyma'r brif ffynhonnell ar gyfer amcanestyniadau o farchnad lafur y DU oherwydd bod ei ragolygon 10 mlynedd yn:[1]

- gynhwysfawr: mae'n cwmpasu marchnad lafur y DU yn gyfan gwbl, gan ymchwilio i sut mae rhagolygon gwahanol sectorau diwydiant yn rhyngweithio, gyda rhai yn ehangu a rhai yn lleihau, a phob un yn newid mewn ffyrdd gwahanol.
- cadarn: mae'n cyfeirio at yr ystod lawn o ystadegau ddata ar y farchnad lafur er mwyn darparu llinell sylfaen fesul sector, galwedigaeth ac ardal leol, ac yn defnyddio dulliau modelu soffistigedig i ragweld sut y bydd y dimensiynau gwahanol hyn yn debygol o ddatblygu;
- gronynnog: drwy alluogi dadansoddiad fesul sector a galwedigaeth, mae'n caniatáu i ni ddeall nid yn unig y newidiadau eang o ran nifer y gweithlu, ond hefyd eu goblygiadau ar gyfer y cymysgedd sgiliau ym mhob sector diwydiant.

Er hyn, gan mai data amcanestyniadau a geir yn y fan hon mae'n rhaid defnyddio'r wybodaeth yn ofalus a dylai darllenwyr fod yn ymwybodol o'r cafeat canlynol:

Fel yn achos pob amcanestyniad a rhagolwg, dylid ystyried mai arwydd yw'r canlyniadau yn Dyfodol Gwaith o dueddiadau a graddfeydd tebygol sy'n seiliedig ar y rhagdybiaeth y bydd patrymau ymddygiad a pherfformiad a welwyd yn y gorffennol yn parhau, yn hytrach nag edrych ar y canlyniadau hynny fel rhagolygon manwl o'r hyn a fydd yn digwydd yn y dyfodol. Er bod Dyfodol Gwaith yn cyfeirio at ei ffigurau fel 'cyflogaeth', y brif ffynhonnell ar gyfer llunio rhagolygon yw data Workforce Jobs. Mae'r data hwn yn mesur swyddi yn hytrach na phobl mewn swyddi, felly bydd y ffigurau ar gyfer 2014 yn uwch na rhagolygon cyflogaeth Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth 2014, gan y gall rhai unigolion fod â mwy nag un swydd.

[1] Dyfodol Gwaith 2014-2024: Adroddiad (Ebrill 2016)

Am y rheswm hwn, dylid canolbwyntio ar y tueddiadau cyffredinol a ragamcenir, nid ar ffigurau penodol.[2] Mae allbynnau Dyfodol Gwaith yn y papur hwn wedi'u talgrynnu i'r cant agosaf. Mae canrannau yn seiliedig ar ffigurau heb eu talgrynnu.

Dim ond un darn o'r jig-so tystiolaeth sydd ei angen wrth benderfynu ar sefyllfa'r farchnad lafur yn y dyfodol yw amcanestyniadau cyflogaeth, megis y rhai o Dyfodol Gwaith. Er enghraifft, pe bai Dyfodol Gwaith yn cael ei ddefnyddio fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer cynllunio darpariaeth yn y dyfodol, dylid ystyried symudiadau cyfredol a rhai a ragwelir yn yr economi / y farchnad lafur (h.y. prosiectau seilwaith mawr sy'n dod i'r golwg) na allent gael eu nodi gan Dyfodol Gwaith, yn enwedig y rhai sy'n digwydd ar lefel leol/ranbarthol, ynghyd â'r ddarpariaeth a geir drwy lwybrau eraill.[3]

Mae'r tablau yn cyfeirio at alw yn sgil ehangu, galw yn sgil ymadawiadau a chyfanswm y gofyniad. Gellir eu crynhoi fel a ganlyn:

- Galw yn sgil ehangu – y newid net yn nifer y swyddi;
- Galw yn sgil ymadawiadau – yr angen i gyflogwyr gyflogi gweithwyr newydd o ganlyniad i farwolaethau, ymddeoliadau neu resymau eraill[4]; ac
- Cyfanswm y gofyniad – swm y galw yn sgil ehangu a'r galw yn sgil ymadawiadau.

O ganlyniad i gyfyngiadau data, mae amcanestyniadau o'r galw yn sgil ymadawiadau yn seiliedig ar y dybiaeth bod patrymau cyffredinol strwythur oedran a chyfraddau llif yn gyffredin ar draws pob sector a rhanbarth. Ni fydd hyn yn wir yn ymarferol, er eu bod yn benodol i alwedigaeth *ar lefel y DU*. Am y rheswm hwn dylid ystyried canlyniadau galw yn sgil ymadawiadau ar lefel sector fel canlyniadau dangosol yn unig.

[2] Yn 2002, cynhyrchodd London Economics adolygiad o fodelau rhagolygon economaidd rhanbarthol yng Nghymru, gan nodi y gallai fod gwerth i ragolygon fel rhan o fframwaith cydlynol ar gyfer trefnu ffordd o feddwl am y dyfodol. Fodd bynnag, ni ddylid canolbwyntio cymaint ar yr union amcangyfrifon a nodir yn rhagolygon ar gyfer dangosyddion economaidd amrywiol. Yn hytrach, dylid rhoi mwy o sylw i'r reddf sy'n sail i'r rhagolygon. Nodwyd hefyd y gall rhagolygon sy'n defnyddio data rhanbarthol fod yn llai dibynadwy na'r rhai sy'n defnyddio data cenedlaethol. Mae'r papur ar gael yn: http://www.learningobservatory.com/uploads/publications/209.pdf

[3] Er enghraifft, er mwyn penderfynu ar y lefelau darpariaeth gorau ar gyfer addysg uwch i allu ymateb i'r galw, dylid rhoi sylw i gyrsiau addysg bellach a allai ddarparu canlyniad tebyg.

[4] O ganlyniad i brinder data dibynadwy ar symudedd galwedigaethol a daearyddol, mae Dyfodol Gwaith yn canolbwyntio ar ymddeoliadau a rhesymau eraill dros adael y gweithlu yn lled barhaol (megis ffurfio teulu).

Beth mae Dyfodol Gwaith yn ei ddweud am ddyfodol y farchnad lafur?

Mae rhagamcanion Dyfodol Gwaith yn awgrymu y bydd cyflogaeth yng Nghymru'n tyfu 3.8 y cant rhwng 2014 a 2024. Mae hyn yn debyg i'r Alban a Gogledd Iwerddon, ond yn arafach na Lloegr (Tabl 1). Ar draws y DU gyfan, rhagwelir y bydd cyflogaeth yn tyfu 5.5 y cant rhwng 2014 a 2024.

Tabl 1: Rhagamcan o'r newid canrannol i gyflogaeth 2004-2024

	2014	2024	Newid	% Newid
Cymru	1,412,300	1,465,900	53,600	3.8
Lloegr	28,235,200	29,862,400	1,627,200	5.8
Gogledd Iwerddon	821,500	851,000	29,500	3.6
Yr Alban	2,698,100	2,813,100	115,100	4.3
Y Deyrnas Unedig	33,167,000	34,992,400	1,825,400	5.5

Ffynhonnell: Dyfodol Gwaith 2014-2024
Nodiadau: Mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu i'r cant agosaf, er bod canrannau yn seiliedig ar ffigurau heb eu talgrynnu.

Rhagamcenir cynnydd mewn cyflogaeth o 1,412,300 i 1.465,900 yng Nghymru, gan arwain at 54,000 yn fwy o bobl mewn cyflogaeth yn 2024 o gymharu â 2014. Yn ogystal â'r cynnydd yn nifer y bobl mewn cyflogaeth, mae angen cyflogi gweithwyr newydd hefyd i gymryd lle'r rheini sydd wedi gadael y farchnad lafur am amryw o resymau. Cyfeirir at hyn fel 'galw yn sgil ymadawiadau'. Mae'r galw hwn yn sgil ymadawiadau, sef 553,000, yn llawer mwy na'r newid net mewn cyflogaeth (galw oherwydd ehangu). Gyda'i gilydd, maent yn cynhyrchu gofyniad net o 607,000 rhwng 2014 a 2024. Mae modd gweld hyn ar sail flynyddol rhwng 2014 a 2024 yn Ffigur 1.

Ffigur 1: Rhagamcan o'r galw oherwydd ehangu, y galw yn sgil ymadawiadau a chyfanswm (net) y gofyniad yng Nghymru, 2014-2024



Ffynhonnell: Dyfodol Gwaith 2014-2024

Yn ogystal â'r canfyddiadau cyffredinol hyn, mae Dyfodol Gwaith hefyd yn edrych ar ragamcanion o gyflogaeth yn y dyfodol yn ôl sector, galwedigaeth a lefel cymhwyster.

Rhagamcanion fesul sector diwydiannol

Mae canlyniadau Dyfodol Gwaith 2014-2024 yn seiliedig ar ddiffiniadau sector diwydiannol 6, 22 a 75. Mae'r papur hwn yn cynnwys canfyddiadau o'r diffiniad o 22 sector.[5] Rhagamcenir mae'r sector masnach cyfanwerthu a manwerthu fydd â'r cynnydd mwyaf mewn cyflogaeth rhwng 2014 a 2024. Rhagamcenir y bydd y sector hwn yn cynyddu 19,700 rhwng 2014 a 2024, ac mai hwn, felly, fydd y sector mwyaf yn 2024. Hwn oedd y sector mwyaf ond un yn 2014, yn ail yn unig i'r sector iechyd a gwaith cymdeithasol. Rhagwelir y bydd y sector hwn hefyd yn cynyddu rhwng 2014 a 2024, ond nid i'r un graddau (7,100). O ran cyfran, rhagamcenir y bydd y cynnydd mwyaf yn digwydd yn y sectorau cyllid ac yswiriant (17.9 y cant), dŵr a charthffosiaeth (16.5 y cant) a gwasanaethau proffesiynol (13.2 y cant). Fodd bynnag, mae twf cyfunol y sectorau hyn (16,200) yn parhau i fod yn llai na'r twf a ragwelir ar gyfer masnach cyfanwerthu a manwerthu, a hynny oherwydd y ffaith eu bod sectorau llai o faint.

Rhagamcenir cwymp mewn cyflogaeth mewn sawl sector, gan gynnwys amaeth (-10,700), gweddill gweithgynhyrchu (-10,000), a pheirianneg (-5,100). Oherwydd bod angen cael gweithwyr newydd i gymryd lle gweithwyr sydd wedi gadael y farchnad lafur, bydd galw sylweddol o hyd yn y sectorau hyn rhwng 2014 a 2024.

[5] I gael rhagor o wybodaeth am ddiffiniadau sector gweler Atodiad A.

Tabl 2: Rhagamcan o'r newid i gyflogaeth yng Nghymru fesul sector, 2014-2024

	2014	2024	Ehangu	% Ehangu	Ymadawiadau	Cyfanswm
Amaethyddiaeth	37,000	26,400	-10,700	-28.8	14,200	3,500
Cloddio a chwarela	2,100	2,400	300	12.2	900	1,100
Bwyd, diod a thybaco	24,200	24,500	300	1.3	8,800	9,100
Peirianneg	19,300	14,200	-5,100	-26.4	6,100	1,000
Gweddill gweithgynhyrchu	111,600	101,600	-10,000	-9.0	36,800	26,800
Trydan a nwy	6,100	6,700	500	8.9	2,200	2,700
Dŵr a charthffosiaeth	11,800	13,700	1,900	16.5	4,700	6,600
Adeiladu	100,900	109,600	8,600	8.6	35,700	44,300
Y fasnach gyfanwerthu a manwerthu	205,000	224,800	19,700	9.6	82,700	102,400
Trafnidiaeth a storio	48,900	50,300	1,400	2.8	19,100	20,400
Llety a bwyd	86,000	96,100	10,100	11.8	37,200	47,300
Y cyfryngau	10,000	9,300	-700	-7.1	3,900	3,100
Technoleg gwybodaeth	18,000	20,100	2,100	11.7	6,700	8,800
Cyllid ac yswiriant	30,100	35,400	5,400	17.9	12,100	17,400
Eiddo tirol	22,900	25,000	2,100	9.3	9,800	11,900
Gwasanaethau proffesiynol	67,100	75,900	8,900	13.2	27,900	36,700
Gwasanaethau cymorth	88,100	97,100	9,100	10.3	35,500	44,500
Gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn	87,000	87,100	100	0.1	32,000	32,100
Addysg	142,100	140,500	-1,500	-1.1	58,100	56,600
Iechyd a gwaith cymdeithasol	213,900	221,100	7,100	3.3	85,700	92,800
Y celfyddydau ac adloniant	35,100	37,600	2,600	7.4	14,700	17,300
Gwasanaethau eraill	45,000	46,300	1,400	3.0	18,900	20,300
Pob diwydiant	**1,412,300**	**1,465,900**	**53,600**	**3.8**	**553,400**	**607,000**

Ffynhonnell: Dyfodol Gwaith 2014-2024

Nodiadau: Mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu i'r cant agosaf, er bod canrannau yn seiliedig ar ffigurau heb eu talgrynnu.

Mae 'Ehangu' yn dynodi galw oherwydd ehangu, mae 'Ymadawiadau' yn golygu galw yn sgil ymadawiadau, ac mae 'Cyfanswm' yn golygu cyfanswm y gofyniad.

Dylid ystyried ffigurau galw yn sgil ymadawiadau a chyfanswm y gofyniad ar gyfer y sectorau fel ffigurau dangosol yn unig.

Rhagamcanion fesul galwedigaeth

Rhagwelir y bydd cynnydd mawr seiliedig ar dwf rhwng 2014 a 2024 mewn galwedigaethau sgiliau uwch ym meysydd gwaith rheoli, proffesiynol, a grwpiau proffesiynol a thechnegol cysylltiedig (Tabl 3). O'r grwpiau hyn, rhagwelir mai dim ond y galwedigaethau gwasanaethau diogelu a fydd yn gostwng rhwng 2014 a 2024. Mae'n debyg y bydd y grwpiau galwedigaethol hyn yn ei gwneud yn ofynnol i unigolion feddu ar gymwysterau lefel uwch. Mae'r cynnydd yn y tri grŵp galwedigaethol hyn (SOC 2010 Prif grwpiau 1-3)[6] yn parhau â thueddiadau mwy hirdymor, a rhagwelir y bydd y grŵp hwn yn gyfrifol am 40.5 y cant o gyflogaeth yng Nghymru yn 2024 o'i gymharu â 30.1 y cant yn 1994.

Yn ogystal â galwedigaethau sgiliau uwch, rhagwelir cynnydd mawr mewn cyflogaeth ar gyfer y rheini mewn galwedigaethau gwasanaeth gofal personol. Gellir ystyried hyn yn adlewyrchiad o'r materion demograffeg sy'n wynebu Cymru a'r DU ac mae'n dilyn twf cryf yn yr alwedigaeth rhwng 2004 a 2014 (cynnydd o 97,800 yn 2004 i 123,300 yn 2014 a rhagamcenir cynnydd pellach i 138 erbyn 2024).

[6] I gael rhagor o wybodaeth am ddiffiniadau o alwedigaethau gweler Atodiad B.

Rhagwelir mai galwedigaethau gwasanaeth cwsmeriaid fydd yn gweld y cynnydd mwyaf o ran canran o blith yr holl alwedigaethau - cynnydd o 20.5 y cant rhwng 2014 a 2024, sef o 24,400 i 29,400.

O safbwynt galwedigaethau lefel sgiliau canolig, rhagwelir y bydd y sector ysgrifenyddol a galwedigaethau cysylltiedig yn gostwng yn sylweddol i 30.9 y cant (gostyngiad o 10,800). Hefyd, rhagamcenir cwymp o 12.7 y cant ar gyfer crefftau amaethyddol a chysylltiedig medrus; 8.9 y cant ar gyfer crefftau metel, trydanol ac electronig medrus; ac 8.4 y cant ar gyfer tecstilau, argraffu a chrefftau medrus eraill. Rhagwelir y bydd y galwedigaethau gweinyddol ac ysgrifenyddol, a chrefftau medrus ehangach (SOC 2010 Prif grwpiau 4 a 5) yn colli swyddi hyd at 2024.

O ran y galwedigaethau sgiliau is, mae'r amcanestyniadau twf yn gymysg. Fel y nodwyd uchod, rhagwelir lefelau twf uchel ar gyfer galwedigaethau gofal personol a galwedigaethau gwasanaeth cwsmeriaid. Fodd bynnag, rhagwelir gostyngiad sylweddol yn y niferoedd sy'n gweithio mewn galwedigaethau gweithredwyr prosesau, peirianwaith a pheiriannau, a swyddi gwerthu.

Hefyd, rhagwelir gwahaniaethau *o fewn* y categorïau ehangach o alwedigaethau. Er enghraifft, rhagamcenir mai ychydig o newid y bydd y galwedigaethau Gwerthiant a Gwasanaeth Cwsmeriaid (SOC 2010 Prif grŵp 7) yn ei weld, ond mae hyn yn cuddio colled o 5,000 o'r galwedigaethau gwerthu a chynnydd cyfwerth, 5,000, yn y galwedigaethau gwasanaeth cwsmeriaid.

Bydd pob galwedigaeth, hyd yn oed y rheini y rhagwelir y byddant yn lleihau, yn gofyn am bobl newydd i ddod i mewn i'r galwedigaethau hyn er mwyn cymryd lle'r rheini sy'n gadael y farchnad lafur. Mae galw yn sgil ymadawiadau ar ei fwyaf yn y galwedigaethau gofal personol, y galwedigaethau gweinyddol, a'r galwedigaethau gweinyddiaeth a gwasanaeth elfennol. Mae gan y rhain alw yn sgil ymadawiadau o oddeutu 50,000 yr un.

O ganlyniad i'r galw hwn yn sgil ymadawiadau, mae cyfanswm y gofyniad yn gadarnhaol ar gyfer pob galwedigaeth. Mae cyfanswm y gofyniad rhwng 2014 a 2024 yng Nghymru ar ei uchaf ar gyfer:

- galwedigaethau gwasanaeth gofal personol (68,300);
- athrawon a gweithwyr addysg proffesiynol (50,800);
- galwedigaethau gweinyddiaeth a gwasanaeth elfennol (47,900);
- galwedigaethau gweinyddol (47,600);
- gweithwyr iechyd proffesiynol (45,100);
- gweithwyr busnes a gwasanaethau cyhoeddus cysylltiol proffesiynol (38,800);
- rheolwyr a chyfarwyddwyr corfforaethol (36,500).

Mae cynnwys galwedigaethau gweinyddiaeth a gwasanaeth elfennol ar y rhestr hon yn dangos bod angen unigolion i lenwi rolau y gellid eu hystyried yn rhai â sgiliau is yn y dyfodol.

Tabl 3: Rhagamcan o'r newid mewn cyflogaeth yng Nghymru, fesul galwedigaeth, 2014-2024

	2014	2024	Ehangu	% Ehangu	Ymadawiadau	Cyfanswm
11 Rheolwyr a chyfarwyddwyr corfforaethol	65,400	76,900	11,500	17.6	25,000	36,500
12 Rheolwyr a pherchenogion eraill	41,000	45,700	4,700	11.5	20,100	24,800
21 Gweithwyr proffesiynol gwyddoniaeth, ymchwil, peirianneg a thechnoleg	45,500	50,300	4,800	10.5	14,000	18,800
22 Gweithwyr iechyd proffesiynol	79,300	92,000	12,800	16.1	32,300	45,100
23 Athrawon a gweithwyr addysg proffesiynol	91,900	101,900	10,100	11.0	40,700	50,800
24 Gweithwyr busnes, y cyfryngau a gwasanaethau cyhoeddus proffesiynol	44,700	51,200	6,500	14.6	19,200	25,700
31 Gweithwyr proffesiynol cysylltiol gwyddoniaeth, peirianneg a thechnoleg	20,800	21,200	400	2.2	6,200	6,700
32 Gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol cysylltiol proffesiynol	26,300	30,400	4,100	15.4	10,100	14,200
33 Galwedigaethau gwasanaethau diogelu	15,900	15,000	-900	-5.7	3,800	2,900
34 Galwedigaethau diwylliant, y cyfryngau a chwaraeon	22,000	24,700	2,700	12.1	9,600	12,300
35 Gweithwyr busnes a gwasanaethau cymdeithasol cysylltiol proffesiynol	74,000	84,300	10,400	14.0	28,400	38,800
41 Galwedigaethau gweinyddol	119,500	117,100	-2,400	-2.0	49,900	47,600
42 Galwedigaethau ysgrifenyddol a chysylltiedig	34,700	24,000	-10,800	-30.9	15,200	4,500
51 Crefftau amaethyddol a chysylltiedig medrus	26,200	22,900	-3,300	-12.7	13,300	10,000
52 Crefftau metel, trydanol ac electronig medrus	63,000	57,400	-5,600	-8.9	18,900	13,300
53 Crefftau adeiladu medrus	67,000	69,900	2,900	4.3	22,600	25,400
54 Tecstilau, argraffu a chrefftau medrus eraill	35,400	32,400	-3,000	-8.4	13,100	10,100
61 Galwedigaethau gwasanaeth gofal personol	123,300	138,200	14,900	12.1	53,400	68,300
62 Galwedigaethau hamdden, teithio a gwasanaeth personol cysylltiedig	29,200	28,900	-400	-1.2	13,300	12,900
71 Galwedigaethau gwerthu	90,300	85,300	-5,000	-5.5	34,600	29,600
72 Galwedigaethau gwasanaethau cwsmeriaid	24,400	29,400	5,000	20.5	8,600	13,600
81 Gweithredwyr prosesau, peirianwaith a pheiriannau	81,200	72,000	-9,200	-11.3	24,300	15,100
82 Gyrwyr a gweithredwyr trafnidiaeth a pheiriannau symudol	39,500	41,500	2,000	5.2	17,600	19,600
91 Crefftau elfennol a galwedigaethau cysylltiedig	32,800	34,200	1,400	4.3	11,300	12,700
92 Galwedigaethau gweinyddiaeth a gwasanaeth elfennol	118,900	118,900	100	0.1	47,800	47,900
Pob galwedigaeth	1,412,300	1,465,900	53,600	3.8	553,400	607,000

Ffynhonnell: Dyfodol Gwaith 2014-2024

Nodiadau: mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu i'r cant agosaf, er bod canrannau yn seiliedig ar ffigurau heb eu talgrynnu.

'Ehangu.' yn dynodi galw oherwydd ehangu, Mae 'Ymadawiadau' yn dynodi galw yn sgil ymadawiadau a 'Cyfanswm' yn dynodi cyfanswm y gofyniad.

Rhagamcanion fesul cymhwyster

Er y gellir defnyddio lefel cymwysterau i gynrychioli sgiliau, mae hefyd yn bosibl edrych ar sut y rhagwelir y bydd lefelau cymwysterau'r rhai mewn cyflogaeth yn newid rhwng 2014 a 2024.

Mae Ffigur 2 yn dangos y newidiadau sydd wedi digwydd, a'r newidiadau a ragamcenir rhwng 2004 a 2024. Gellir gweld y cynnydd mewn cymwysterau lefel uwch ymhlith y rhai mewn cyflogaeth yn amlwg. Rhwng 2004 a 2024, rhagwelir y bydd cyfran y rheini mewn cyflogaeth sydd â chymwysterau FfCCh lefel 4-6 yn dyblu bron, o 22 y cant i 40 y cant. Rhagwelir y bydd cyfran y rheini mewn cyflogaeth sydd â chymwysterau lefelau 7-8 hefyd yn dyblu bron, o 6 y cant i 11. Mae hyn yn golygu erbyn 2024 y rhagwelir y bydd dros hanner y rhai mewn cyflogaeth yn meddu ar gymwysterau lefel 4 neu uwch. Mae hyn mewn cyferbyniad â thua chwarter yn 2004.

Gwelir y gwrthwyneb ar gyfer y rhai nad ydynt yn meddu ar unrhyw gymwysterau. Roedd 13 y cant o bobl mewn cyflogaeth yng Nghymru yn 2004 heb unrhyw gymwysterau, a rhagwelir y bydd y ganran hon yn disgyn i 2 y cant yn unig yn 2024. Yn yr un modd, rhagwelir y bydd cyfran y rhai mewn cyflogaeth sydd wedi cymhwyso i lefel 1 yn gostwng o 18 y cant i 9 y cant. Rhagwelir gostyngiad bach ar gyfer cyfran y rheini mewn cyflogaeth sydd wedi cymhwyso i lefel 2, ac nid oes llawer o newid o gwbl yng nghyfran y rhai sydd wedi cymhwyso i lefel 3.

Ffigur 2: Rhagamcanion o lefel cyflogaeth yn ôl cymwysterau, 2004-2024



Ffynhonnell: Dyfodol Gwaith 2014-2024

O edrych ar lefelau cymwysterau unigol (Ffigur 3) gwelir mai FfCCh 6 yw'r prif sbardun sy'n sail i'r cynnydd a rhagwelir mewn FfCCh lefel 4-6 rhwng 2014 a 2024. Ni ddisgwylir llawer o newid ar gyfer FfCCh lefel 5 (ynj enwedig yn ail hanner y ddegawd), ond disgwylir cynnydd ar gyfer FfCCh lefel 4. Rhagwelir cynnydd ar gyfer FfCCh lefel 7, a rhagwelir y bydd y nifer â chymhwyster FfCCh lefel 8 hefyd yn cynyddu rhwng 2014 a 2024.

Ffigur 3: Rhagamcanion o newid i gyflogaeth fesul lefel cymhwyster dadgyfunedig, 1994-2024



Ffynhonnell: Dyfodol Gwaith 2014-2024

Er y rhagwelir gostyngiad mawr yng nghyfran a nifer y rhai mewn cyflogaeth nad ydynt yn meddu ar unrhyw gymwysterau neu gymwysterau isel, mae'n werth nodi y bydd angen nifer sylweddol o weithwyr o hyd i gymryd lle'r rhai a fydd yn gadael y farchnad lafur yn y meysydd hyn (Tabl 4). Er y rhagwelir y bydd nifer (cyfunol) y bobl mewn cyflogaeth nad oes ganddynt unrhyw gymwysterau neu gymwysterau isel (FfCCh lefel 1) yn gostwng tua 119,000, bydd angen tua 107,000 o bobl o hyd ar y lefelau hyn o hyd, a hynny i gymryd lle'r rhai sydd wedi gadael y farchnad lafur. Mae hyn hefyd yn wir am FfCCh lefelau 2 a 3 y rhagwelir y bydd colledion mewn cyflogaeth ar eu cyfer hwy hefyd, ond y bydd angen mwy na 110,000 o weithwyr yr un arnynt i gymryd lle'r rhai a fydd yn gadael y farchnad lafur.

Tabl 4: Rhagamcanion o'r newid i lefel cymwysterau pobl mewn cyflogaeth yng Nghymru, 2014-2024

	2014	2024	Ehangu	Ymadawiadau	Cyfanswm
FfCCh 7-8	149,200	166,700	17,600	58,400	76,000
FfCCh 4-6	401,800	579,900	178,100	157,400	335,600
FfCCh 3	299,600	284,100	-15,500	117,400	101,900
FfCCh 2	289,700	281,800	-7,800	113,500	105,700
FfCCh 1	179,700	124,800	-54,900	70,400	15,500
Dim cymwysterau	92,300	28,500	-63,900	36,200	-27,700
Cyfanswm	1,412,300	1,465,900	53,600	553,400	607,000
	% cyfran	% cyfran	% newid		% o lefel 2014
FfCCh 7-8	10.6	11.4	11.8		51.0
FfCCh 4-6	28.4	39.6	44.3		83.5
FfCCh 3	21.2	19.4	-5.2		34.0
FfCCh 2	20.5	19.2	-2.7		36.5
FfCCh 1	12.7	8.5	-30.6		8.6
Dim cymwysterau	6.5	1.9	-69.1		-30.0
Cyfanswm	100.0	100.0	3.8		43.0

Ffynhonnell: Dyfodol Gwaith 2014-2024
Nodiadau: Mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu i'r cant agosaf, er bod canrannau yn seiliedig ar ffigurau heb eu talgrynnu.
Mae 'Ehangu' yn dynodi galw oherwydd ehangu, mae 'Ymadawiadau' yn golygu galw yn sgil ymadawiadau, ac mae 'Cyfanswm' yn golygu cyfanswm y gofyniad.

Casgliad

Mae Dyfodol Gwaith 2014-2024 yn adnodd pwysig sy'n darparu rhagamcanion mewn perthynas â chyflogaeth hyd at 2024. Mae'r papur hwn yn rhoi trosolwg o'r canfyddiadau ar gyfer Cymru, ond mae llawer o fanylion pellach i'w cael yn yr adroddiadau a'r llyfrau gwaith.

Mae rhagamcanion yn awgrymu bod y duedd tuag at gymwysterau uwch a galwedigaethau sgiliau uwch yn parhau. Fodd bynnag, mae rhai galwedigaethau sgiliau is yn dangos twf (gyda gwasanaeth gofal personol yn dangos twf uchel iawn) a bydd angen cyflogi gweithwyr newydd i gymryd lle'r rheini sydd wedi gadael y farchnad lafur ym mhob sector, galwedigaeth a lefel cymhwyster.

Er y dylid defnyddio amcanestyniadau o ran data yn ofalus ynghyd â nodi cafeatau perthnasol, mae llawer o'r newidiadau a ragwelir yn debygol o fod mewn ymateb i dueddiadau hirdymor mewn demograffeg (y cynnydd mewn galwedigaethau gwasanaeth gofal personol) a newid technolegol (y gostyngiad mewn galwedigaethau ysgrifenyddol a galwedigaethau cysylltiedig).

Rhagor o wybodaeth:

Gwefan Dyfodol Gwaith 2014-2024 Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau:

https://www.gov.uk/government/publications/uk-labour-market-projections-2014-to-2024

Prif Adroddiad Dyfodol Gwaith 2014-2024:

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/513801/Working_Futures_final_evidence_report.pdf

Atodiadau Dyfodol Gwaith 2014-2024 (data Cymru):

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/523332/Working_Futures_Annexes_1424.pdf

Llyfrau Gwaith Excel Dyfodol Gwaith 2014-2024:

https://www.gov.uk/government/publications/uk-labour-market-projections-2014-to-2024

Atodiad A: Dyfodol Gwaith 2014-2024: Diffiniadau sector

Mae'r tabl isod yn dangos sut mae'r diffiniad o'r chwe sector eang a ddefnyddir yn Dyfodol Gwaith yn cyd-fynd â'r system 22 sector fwy dadgyfunedig a ddefnyddir hefyd. Rhoddir codau SIC 2007 (Dosbarthiad Diwydiannol Safonol) hefyd.

Dyfodol Gwaith – 6 Sector Eang		**Dyfodol Gwaith – 22 Sector**		
Rhif	Enw	Rhif	Enw	SIC2007
1	Sector cynradd a chyfleustodau	1	Amaethyddiaeth	(01-03)
		2	Cloddio a chwarela	(05-09)
		6	Trydan a nwy	(35)
		7	Dŵr a charthffosiaeth	(36-39)
2	Gweithgynhyrchu	3	Bwyd a diod	(10-12)
		4	Peirianneg	(26-28)
		5	Gweddill gweithgynhyrchu	(13-25) (29-33)
3	Adeiladu	8	Adeiladu	(41-43)
4	Masnach, llety a thrafnidiaeth	9	Y fasnach gyfanwerthu a manwerthu	(45-47)
		10	Trafnidiaeth a storio	(49-53)
		11	Llety a bwyd	(55-56)
5	Busnes a gwasanaethau eraill	12	Y cyfryngau	(58-60) (63)
		13	TG	(61-62)
		14	Cyllid ac yswiriant	(64-66)
		15	Eiddo tirol	(68)
		16	Gwasanaethau proffesiynol	(69-75)
		17	Gwasanaethau cymorth	(77-82)
		21	Y celfyddydau ac adloniant	(90-93)
		22	Gwasanaethau eraill	(94-96)
6	Gwasanaethau nad ydynt ar gyfer y farchnad	18	Gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn	(84)
		19	Addysg	(85)
		20	Iechyd a gwaith cymdeithasol	(86-88)

Atodiad B: Dyfodol Gwaith 2014-2024: Diffiniadau o alwedigaethau

Mae'r tabl isod yn dangos sut mae'r diffiniad o naw galwedigaeth eang (SOC 2010 Prif Grŵp) a ddefnyddir yn Dyfodol Gwaith yn cyd-fynd â'r system 25 galwedigaeth fwy dadgyfunedig a ddefnyddir hefyd (SOC 2010 Is-grŵp). Rhoddir codau SOC 2010 (Dosbarthiad Diwydiannol Safonol) hefyd.

Dyfodol Gwaith – 9 Galwedigaeth Eang		**Dyfodol Gwaith – 25 o Alwedigaethau**	
SOC 2010 Cod Prif Grŵp	Enw	SOC 2010 Cod Is-grŵp	Enw
1	Rheolwyr, cyfarwyddwyr ac uwch swyddogion	11	Rheolwyr a chyfarwyddwyr corfforaethol
		12	Rheolwyr a pherchenogion eraill
2	Galwedigaethau proffesiynol	21	Gweithwyr proffesiynol gwyddoniaeth, ymchwil, peirianneg a thechnoleg
		22	Gweithwyr iechyd proffesiynol
		23	Athrawon a gweithwyr addysg proffesiynol
		24	Gweithwyr busnes, y cyfryngau a gwasanaethau cyhoeddus proffesiynol
3	Proffesiynol a thechnegol cyswllt	31	Gweithwyr proffesiynol cysylltiol gwyddoniaeth, peirianneg a thechnoleg
		32	Gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol cysylltiol proffesiynol
		33	Galwedigaethau gwasanaethau diogelu
		34	Galwedigaethau diwylliant, y cyfryngau a chwaraeon
		35	Gweithwyr busnes a gwasanaethau cymdeithasol cysylltiol proffesiynol
4	Gweinyddol ac ysgrifenyddol	41	Galwedigaethau gweinyddol
		42	Galwedigaethau ysgrifenyddol a chysylltiedig
5	Galwedigaethau crefftau medrus	51	Crefftau amaethyddol a chysylltiedig medrus
		52	Crefftau metel, trydanol ac electronig medrus
		53	Crefftau adeiladu medrus
		54	Tecstilau, argraffu a chrefftau medrus eraill
6	Gofalu, hamdden a gwasanaethau eraill	61	Galwedigaethau gwasanaeth gofal personol
		62	Galwedigaethau hamdden, teithio a gwasanaeth personol cysylltiedig
7	Gwerthiant a gwasanaeth cwsmeriaid	71	Galwedigaethau gwerthu
		72	Galwedigaethau gwasanaethau cwsmeriaid
8	Gweithredwyr prosesau, peirianwaith a	81	Gweithredwyr prosesau, peirianwaith a pheiriannau

	pheiriannau		
		82	Gyrwyr a gweithredwyr trafnidiaeth a pheiriannau symudol
9	Galwedigaethau elfennol	91	Crefftau elfennol a galwedigaethau cysylltiedig
		92	Galwedigaethau gweinyddiaeth a gwasanaeth elfennol